

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Bryn-mawr, Blaenau Gwent i Lanbaiden, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2021

Gwnaed 28 Hydref 2021-

Yn dod i rym 1 Tachwedd 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Bryn-mawr, Blaenau Gwent i Lanbaiden, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2021- a daw i rym ar 1 Tachwedd 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

-
- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Hydref 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

YR ATODLEN

Y darn o gerbythffordd tua'r dwyrain yr A465 o bwynt 797 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod hyd at bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden am bellter o 8229 o fetrau.

Y darn o gerbythffordd tua'r gorllewin yr A465 o bwynt 230 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain o ganolbwynt Tanbont Glanbaiden hyd at bwynt 223 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Pont Droed Hafod am bellter o 7725 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Brynmawr yr A465 o gerbythffordd yr A465 hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o Gylchfan Main Road am gyfanswm pellter o 623 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Brynmawr yr A465 o bwynt 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gefn y trwyniad uno hyd at gerbythffordd yr A465 am gyfanswm pellter o 255 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Brynmawr yr A465 o gerbythffordd yr A465 hyd at bwynt 6 metr i'r gorllewin o'r trwyniad gwyro am gyfanswm pellter o 286 o fetrau.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Brynmawr yr A465 o Gylchfan Brynmawr hyd at gerbythffordd yr A465 am gyfanswm pellter o 246 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard o gerbythffordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'r Gyffordd am gyfanswm pellter o 440 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 40 metr i'r dwyrain o ddechrau llain galed fewnol yr A465 am gyfanswm pellter o 294 o fetrau.

Y darn o dapr ymadael tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o gerbythffordd yr A465 hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 115 o fetrau.

Y darn o dapr ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Saleyard yr A465 o bwynt 20 metr i'r gogledd o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbythffordd yr A465 am gyfanswm pellter o 126 o fetrau.

Y darn o dapr ymrannu ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o gerbythffordd yr A465 hyd at bwynt

21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road am gyfanswm pellter o 282 o fetrau.

Y darn o dapr uno ategol tua'r dwyrain Cyffordd Gilwern yr A465 o bwynt 21 o fetrau i'r de-orllewin o Gyffordd Saleyard Station Road hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 157 o fetrau.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd Glanbaiden yr A465 o gerbyttfordd yr A465 hyd at bwynt 63 o fetrau i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden am gyfanswm pellter o 398 o fetrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd Glanbaiden yr A465 o bwynt 12 metr i'r gorllewin o Gylchfan Glanbaiden hyd at gerbyttfordd yr A465 am gyfanswm pellter o 448 o fetrau.